



Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020

1. CYFLWYNIAD

Mae'r daflen wybodaeth hon yn rhoi cyflwyniad i rownd bresennol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020.

Mae cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn cynrychioli buddsoddiad gwerth tua £300m y flwyddyn, gan gynnwys ystod eang o fuddsoddiadau mewn pobl, busnesau, seilwaith, a datblygu trefol a gwledig. I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ychydig dros £15 biliwn.

Serch hynny, er bod y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ond yn rhan fach o gyllideb gyfan Cymru, maent yn ffynhonnell ariannol bwysig i'r trydydd sector. Mae ymchwil gan WCVA yn amcangyfrif y cafodd £304 miliwn (cyfanswm cost prosiect) ei drin gan fudiadau trydydd sector yn Rhaglenni 2007-2013. Mae hyn yn cynrychioli 9.4 y cant o'r cyfanswm cymeradwy ar gyfer cyfanswm cost prosiect, sef £3,711.2 miliwn, ac yn cynnwys cyllid gan brosiectau dan arweiniad y sector cyhoeddus a gaffaelwyd yn y trydydd sector. O'r ffigwr hwn daeth £161.4 miliwn o grantiau yr UE.

2. Y TRYDYDD SECTOR YN RHAGLENNI CRONFEYDD STRWYTHUROL 2007-2013

Mae mudiadau trydydd sector wedi ymgysylltu â Chronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013 fel noddwyr arweiniol brosiectau, hynny yw, ymgeiswyr uniongyrchol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), cyd-noddwyr ac asiantau cyflenwi contractau:

- Mae £98m o gyllid yr UE wedi'i roi i 45 o brosiectau dan arweiniad y trydydd sector
- Mae tua £63.5m mewn grantiau/contractau gan yr UE wedi'i ddyrannu i fudiadau trydydd sector drwy brosiectau dan arweiniad y sector cyhoeddus
- Mae tua £140.5m o gontractau wedi'i ddyfarnu i 421 o fudiadau trydydd sector

3. DATBLYGIADAU HYD YMA

Yn 2011 cynhaliodd WEFO 'ymarfer myfyrio' i gael barn rhanddeiliaid ynglŷn â gwersi a ddysgwyd o Raglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru. Yn 2012 cafodd Dr Grahame Guilford ei gomisiynu i gynnal adolygiad annibynnol o'r trefniadau gweithredu ('Adolygiad Guilford'), gan gynnig [deuddeg argymhelliad ar gyfer rhaglenni 2014-2020](#) (tt. 8-12), gan gynnwys creu Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd er mwyn targedu'r buddsoddiadau yn well.

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2013 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Rhaglenni Gweithredol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol 2014-2020, a amlinellodd y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol a blaenoriaeth a themâu'r cyllid.

Fis Ionawr 2015 cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y Rhaglenni Gweithredol sy'n rheoli'r ffordd y bydd yr arian yn cael ei wario yng Nghymru. Mae crynodeb byr o Raglenni Cronfeydd Strwythurol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar gyfer [Gorllewin Cymru a'r Cymoedd](#) a [Dwyrain Cymru](#) ar gael ar [wefan](#) WEFO.

Mae Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru, wedi Cadeirio Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd, ac ynddo sawl rhanddeiliad, ers 2012, ac mae WEFO wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys WCVA, drwy amrywiaeth o grwpiau ffrwd gwaith wrth ddylunio'r rhaglenni newydd.

Bydd [Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru](#) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o weithredu'n effeithiol y rhaglenni ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), a bydd yn ystyried sut mae'r cronfeydd yn cydweithio er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Mae [27 o Aelodau](#) wedi'u penodi ac maent yn cynnwys Joy Kent (Chwarae Teg), Derek Walker (Canolfan Cydweithredol Cymru) a Phil Fiander (WCVA).

4. BETH YW'R CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD?

Mae'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi'u rhannu'n bedair, sef Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Bydd rhannau o Gymru yn gymwys ar gyfer y rhain yn ystod 2014-2020.

5. FAINT O GYLLID FYDD CYMRU YN EI GAEL AR GYFER 2014-2020?

Mae pob un o 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE yn cymhwyso ar gyfer lefelau gwahanol o'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, sy'n ceisio hybu twf economaidd a chydlyniant cymdeithasol. Ar gyfer 2014-2020 mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cymhwyso eto fel rhanbarth 'llai datblygedig' a bydd yn cael y lefel uchaf o gymorth grant gan yr UE, sef tua £1.4bn am y drydedd raglen olynol yn y rhanbarth. Bydd Dwyrain Cymru yn parhau i gael ei gyfrif fel rhanbarth 'mwy datblygedig' a bydd ei ddyraniad yn treblu o'i gymharu â rhaglen 2007-2013, o £97m i tua £300m.

Bydd rhannau o Gymru yn cymhwyso am gyllid hefyd drwy'r [Cynllun Datblygu Gwledig](#) a'r [Gronfa Pysgodfeydd](#).

6. THEMÂU NEWYDD AR GYFER 2014-2020

Mae yna set newydd o themâu sy'n sail i raglenni 2014-2020:

- **Ewrop 2020** yw nod strategol trosfwaol yr UE ar gyfer twf call, cynaliadwy a chynhwysol. Ategir hyn gan [dargedau penodol](#) ynghylch cyfraddau cyflogaeth, cymwysterau, lleihau tlodi, ac yn y blaen, a bydd holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn cael eu monitro yn ôl y rhain. Ystyrir y Cronfeydd Strwythurol yn fecanwaith cyllido allweddol i Aelod-wladwriaethau wrth weithio tuag at gyflawni'r targedau.
- **Integreiddio, canolbwyntio a symleiddio** – mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi creu fframwaith rheoleiddio newydd a'i nod yw ei gwneud yn haws **integreiddio**'r pedair cronfa (ERDF, ESF, y Cynllun Datblygu Gwledig a Physgodfeydd) yn agosach er mwyn cael yr effaith orau bosibl; cyn hyn datblygwyd y cronfeydd ar wahân gan wahanol adrannau yn y Comisiwn. O ystyried graddfa fach y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng nghyd-destun cyllideb gyfan Cymru, dylid **canolbwyntio**'r cronfeydd ar flaenoriaethau craidd er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi gwneud cynigion i **symleiddio** proses weinyddu prosiectau e.e. costau symlach (dosraniad cyfradd safonol, costau unedol, ac yn y blaen), er mwyn lleihau cwmpas archwiliadau; a bydd gofynion o ran cadw dogfennau yn cael eu cwtdogi'n sylweddol hefyd.
- **Cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru**: mae Llywodraeth Cymru wedi gosod amcanion clir drwy Raglen Lywodraethu Cymru, gan ganolbwyntio ar greu swyddi a threchgu tlodi. Dylid defnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau sydd eisoes yn bodoli.
- Mae **Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd wedi'i ddatblygu** er mwyn helpu i arwain y defnydd o gronfeydd yr UE dros gyfnod rhaglenni 2014–2020. Mae'n rhoi crynodeb o wahanol fuddsoddiadau sy'n cael eu gwneud ledled Cymru. Dylai prosiectau sy'n gobeithio cael cyllid gan yr UE ddisgrifio sut fyddant yn sefydlu cyfatebolrwydd â'r buddsoddiadau ehangach hyn, ac yn ychwanegu gwerth atynt. Dylent hefyd ddeall yn glir sut fydd y cynnig yn perfformio o'i gymharu â'r Rhaglenni Gweithredol. Gweler [papur gan WEFO am y Fframwaith](#). Mae yna **saith cyfle economaidd thematig** (ynni; bwyd a ffermio; y newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd o ran adnoddau; manteisio ar asedau TGCh a chyfleoedd y farchnad ddigidol; gweithgynhyrchu uwch; gwyddorau bywyd ac iechyd; twristiaeth a hamdden) a **thri chyfle economaidd rhanbarthol** i Ogledd Cymru, y Canolbarth, y De Orllewin a'r De Ddwyrain.
- **Cyllid wedi'i neilltuo**: er mwyn sicrhau bod Aelod-wladwriaethau yn canolbwyntio buddsoddiadau'r Cronfeydd Strwythurol ar y blaenoriaethau allweddol, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi neilltuo cyllid yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd at drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol (20% o Raglen ESF yn y Gorllewin a'r Cymoedd); a chystadleurwydd busnesau bach a chanolig (BBaChau); ymchwil ac arloesedd ac effeithlonrwydd o ran ynni ac ynni adnewyddadwy (40% o Raglen ERDF yn y Gorllewin a'r Cymoedd).

- **Llywodraethu a Chytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig** – mae'n ofyniad bellach gan y Comisiwn Ewropeaidd i Aelod-wladwriaethau Iunio Cytundeb Partneriaeth ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, sy'n nodi beth mae'r Rhaglenni'n gobeithio ei gyflawni a pham, ac yn gosod dangosyddion lefel Rhaglen i'r Aelod-wladwriaeth. Mae yna [Bennod ar Gymru yng Nghytundeb Partneriaeth y Deyrnas Unedig](#).

7. BLAENORIAETHAU'R CYLLID

Mae'r Rhaglenni Gweithredol yn amlinellu'r heriau economaidd-gymdeithasol yng Nghymru, y rhesymeg i fuddsoddi, Blaenoriaethau'r cyllid ac allbynnau, canlyniadau ac effeithiau'r Rhaglenni (sy'n cael eu galw'n 'ddangosyddion'). Y Rhaglenni Gweithredol yw'r contract rhwng WEFO a'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n gosod beth sydd rhaid i'r Rhaglenni ei gyflawni.

Dyma'r Blaenoriaethau a'r Amcanion Penodol sy'n eu tanategu:

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (ardaloedd 'llai datblygedig': Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen)

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

ERDF Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac arloesedd

Amcan Penodol 1.1: Cynyddu llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru o ran denu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat.

Amcan Penodol 1.2: Cynyddu'r arfer o fynd ati'n llwyddiannus i drosi prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol gwell, yn enwedig trwy drosglwyddo technoleg yn well o Sefydliadau Addysg Uwch.

ERDF Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

Amcan Penodol 2.1: Cynyddu swm y cyllid sydd ar gael i BBaChau ar gyfer cychwyn busnesau ac ar gyfer ehangu busnesau.

Amcan Penodol 2.2: Cynyddu nifer y BBaChau newydd trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chymorth ar gyfer entrepreneuriaeth.

Amcan Penodol 2.3: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn manteisio ar rwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf ac isadeiledd TGCh.

Amcan Penodol 2.4: Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial i dyfu, yn enwedig trwy gael mynediad at farchnadoedd newydd (cartref a rhyngwladol).

Amcan Penodol 2.5: Mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran argaeledd cyllid, yn enwedig cyfalaf risg, i BBaChau yng Nghymru arloesi a masnacheiddio ymchwil a datblygu.

ERDF Blaenoriaeth 3: Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni

Amcan Penodol 3.1: Cynyddu nifer dyfeisiau ynni'r tonnau a'r llanw sy'n cael eu profi yn nyfroedd Cymru ac oddi ar arfordir Cymru, gan gynnwys defnyddio araeau â dyfeisiau lluosog, gan felly sefydlu Cymru fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni'r môr.

Amcan Penodol 3.2: Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu.

Amcan Penodol 3.3: Cynyddu effeithlonrwydd ynni'r stoc dai bresennol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd.

ERDF Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a datblygu trefol

Amcan Penodol 4.1: Mynd i'r afael â materion perifferoldeb a gwella buddsoddiad preifat mewn ardaloedd lleol trwy welliannau i weithrediad y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T).

Amcan Penodol 4.2: Cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol.

Amcan Penodol 4.3: Cyfrannu at dargedau'r Agenda Ddigidol ar gyfer Ewrop yng Nghymru ar gyfer mynediad 100% at fand eang y genhedlaeth nesaf (30Mbps ac uwch) a mynediad 50% at 100Mbps.

Amcan Penodol 4.4: Cynyddu cyflogaeth trwy fuddsoddiadau mewn isadeiledd lleol neu ranbarthol blaenoriaethol sy'n cefnogi strategaeth economaidd ranbarthol neu drefol.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

ESF Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy

Amcan Penodol 1: Cynyddu cyflogadwyedd y rhai sydd agosaf at y farchnad lafur ac sy'n wynebu'r risg fwyaf o dlodi.

Amcan Penodol 2: Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

Amcan Penodol 3: Gostwng cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb unigolion cyflogedig sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar waith a/neu rwystrau eraill i ymgysylltu â'r farchnad lafur mewn modd cynaliadwy.

ESF Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf

Amcan Penodol 1: Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl.

Amcan Penodol 2: Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.

Amcan Penodol 3: Cynyddu nifer y bobl â graddau neu gymhwyster cyfatebol sy'n cyflawni gweithgareddau ymchwil ac arloesedd ym myd busnes.

Amcan Penodol 4: Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

ESF Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuencid

Amcan Penodol 1: Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).

Amcan Penodol 2: Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.

Amcan Penodol 3: Cynyddu lefelau cofrestru a chyrhaeddiad pynciau STEM ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.

Amcan Penodol 4: Cynyddu sgiliau'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Dwyrain Cymru (ardaloedd 'mwy datblygedig': Caerdydd, Sir y Fflint, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam)

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)

ERDF Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac arloesi

Amcan Penodol 1.1: Cynyddu cystadleurwydd a chyllid ymchwil preifat.

Amcan Penodol 1.2: Trosi prosesau ymchwil ac arloesi yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell.

ERDF Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

Amcan Penodol 2.1: Cynyddu swm y cyllid sydd ar gael i BBaChau

Amcan Penodol 2.2: Cynyddu nifer y BBaChau newydd

Amcan Penodol 2.3: Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn manteisio ar rwydweithiau Mynediad Cenhedlaeth Nesaf ac isadeiledd TGCh.

Amcan Penodol 2.4: Cynyddu twf y BBaChau hynny â photensial.

Amcan Penodol 2.5: Cynyddu argaeledd cyllid, enwedig cyfalaf risg, i BBaChau yng Nghymru ymchwilio, datblygu ac arloesi.

ERDF Blaenoriaeth 3: Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni

Amcan Penodol 3.1: Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan sydd wedi'u sefydlu.

Amcan Penodol 3.2: Cynyddu effeithlonrwydd ynni'r stoc dai bresennol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd o dlodi tanwydd

ERDF Blaenoriaeth 4: Cysylltedd

Amcan Penodol 4.1: Cynyddu symudedd trefol a llafur i ac o ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol.

Amcan Penodol 4.2: Cyfrannu at dargedau'r UE ar gyfer mynediad 100% at fand eang (30Mbps ac uwch) a mynediad 50% at 100Mbps.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

ESF Blaenoriaeth 1: Trechu tlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy

Amcan Penodol 1: Cynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n Economaidd anweithgar ac sy'n Ddiwaith yn yr Hirdymor sy'n 25 oed a throsodd sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth.

ESF Blaenoriaeth 2: Sgiliau ar gyfer twf

Amcan Penodol 1: Cynyddu lefelau sgiliau, gan gynnwys sgiliau sy'n berthnasol i waith, y rhai yn y gweithlu sydd â sgiliau isel os o gwbl.

Amcan Penodol 2: Cynyddu nifer y bobl yn y gweithlu sydd â sgiliau technegol a phenodol i waith ar lefel ganolraddol ac uwch.

Amcan Penodol 3: Gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu.

ESF Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a chyrraedd iau ieuencid

Amcan Penodol 1: Lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).

Amcan Penodol 2: Lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sy'n wynebu risg o ddod yn NEET.

8. YMGEISIO AM GYLLID YN UNIONGYRCHOL I WEFO

Fel rhan o drefniadau gweithredu WEFO, gall mudiadau sydd â diddordeb mewn arwain y gwaith o gynnal prosiectau drafod eu cynigion neu eu cynlluniau â thimau thematig WEFO drwy gysylltu â Llinell Gymorth WEFO (0845 010 3355) neu ebostio: enquiries-wefo@wales.gov.uk. Gweler [dogfen Holi ac Ateb WEFO ar gyfer darpar noddwyr prosiectau](#).

Unwaith mae syniad am brosiect wedi'i gofrestru â WEFO, bydd y darpar ymgeisydd yn cael Swyddog Datblygu Prosiectau, a fydd yn ymgymryd â deialog strwythuredig â'r ymgeisydd gan ganolbwyntio ar addasrwydd strategol, y gwaith o gynnal y prosiect, cyllid a chydymffurfiaeth. Penderfynir wedyn a ddylai'r ymgeisydd fynd ati i ddatblygu cynllun busnes llawn wedi'i seilio ar y naw maen prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu.

Ni fydd y dull uniongyrchol hwn ond yn addas i fathau penodol o fudiadau trydydd sector ac argymhellir yn gryf drafodaeth yn gynnar yn y broses â thîm 3-SET WCVA.

9. Â PHWY DDYLECH GYSYLLTU I GAEL CYMORTH

Cynghorir mudiadau trydydd sector sy'n gobeithio cyfranogi yng Nghronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 i drafod eu cynlluniau â thîm Ewropeaidd y trydydd sector (3-SET) yn WCVA drwy ebostio 3SET@wcva.org.uk neu ffonio Desg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

